# 7 ffordd wych i blesio plant bach ar Ddydd Sant Ffolant eleni

Nid oes yna gariad mwy na chariad rhiant.  Ar Ddydd Sant Ffolant eleni, dangoswch i'ch plentyn bach gymaint yr ydych yn ei caru gyda'r syniadau gwych yma gan arbenigwyr blaenllaw ymddygiad plant.

## 1. Coginio gyda'ch gilydd



Gadewch i'ch plentyn bach helpu i baratoi bwyd - gallant ychwanegu cynhwysion i wneud cacennau bach Dydd Sant Ffolant i bowlen a'u cymysgu nhw - mae'n ffordd hwyliog iddyn nhw ddefnyddio'r synhwyrau i gyd.  A byddant wrth ei bodd yn blasu'r bwyd maen nhw wedi helpu i'w baratoi.  Rhybudd:  bydd yna ddigon o lanast!

## 2. Mynd am dro i'r traeth



Os yw'r tywydd yn caniatáu, mae mynd am dro i'r traeth gyda'r teulu, ym mis Chwefror hyd yn oed, yn gyfle gwych i gael ychydig o awyr iach ac ymarfer corff.  Mae yna draethau bendigedig yng Nghymru a bydd plant bach wrth eu bodd yn archwilio pyllau glan môr, yn palu tywod ac yn sblasio yn eu hesgidiau glaw ar ymyl y dŵr.  Gall sefyllfaoedd peryglus ddigwydd yn sydyn, felly cofiwch gadw llygad ar eich plentyn.

## 3. Gwnewch rywbeth maen nhw'n ei garu



Gadewch i'ch plentyn bach arwain amser chwarae.  Nid oes ganddynt lawer o reolaeth ar eu trefn ddyddiol felly treuliwch ychydig o amser un-i-un yn chwarae, a bydd gadael iddyn nhw ddewis pa deganau neu gemau yn siŵr o blesio.

## 4. Picnic



Boed law neu hindda, mae picnic llawn bwydydd iach yn newid braf iawn i amser bwyd. Os yw'r tywydd yn braf, ewch i'r ardd neu'r parc i fwynhau ychydig o fyrbrydau iachus. Os na, bydd llawr yr ystafell fyw yn gwneud y tro.

## 5. Celf a chrefft




Mae plant bach wrth eu bodd yn stompio, felly beth am adael iddyn nhw arddangos eu dawn greadigol trwy wneud cerdyn Dydd Sant Ffolant. Agorwch y bocs crefftau, arbrofwch gyda stampiau tatws siâp calon, neu defnyddiwch bapur crych a gliter i sicrhau bod eu campweithiau'n disgleirio.

## 6. Gwahodd ffrind draw i chwarae



Trefnwch i'w ffrind gorau ddod draw i chware. Nid yn unig byddant yn cael lot o hwyl ond mi fydd hefyd yn helpu i ddatblygu sgiliau cymdeithasol pwysig fel rhannu a chyfathrebu.

## 7. Dawnsio



Maen nhw'n rhy ifanc i sylwi ar eich dawnsio ofnadwy eto:  manteisiwch ar y cyfle cyn i'ch dawnsio beri embaras.  Mae dawnsio yn ffordd berffaith i godi gwên ar ddiwrnod Sant Ffolant.  Rhowch gerddoriaeth hwyliog ymlaen a cheisiwch eich gorau i wneud i'ch gilydd chwerthin gyda'ch symudiadau mwyaf gwirion.